# Newidiadau ym mhatrymau mudo

Trwy gydol hanes mae mudwyr wedi teithio o le i le yn chwilio am fywyd gwell. Ffactorau fel tlodi, diwydiannaeth, imperialaeth ac erlid crefyddol sy'n eu gwthio o'u cartrefi.

Ond sut mae mewnfudwyr wedi newid Prydain ar hyd y canrifoedd? A sut mae mudwyr Prydeinig wedi newid bywydau mewn gwledydd eraill?

Yn anffodus, 'dyw mewnfudwyr i Brydain heb gael croeso cynnes bob tro.

Yn 1517, ymosododd torf ar y gymuned Eidalaidd yn Llundain. Yn yr 1530au, alltudiodd Harri VII holl sipsiwn Romani. Ac o'r funud yr ymddangosodd caethweision o Affrica ym Mhrydain, roedd pobl eisiau iddyn nhw adael.

Roedd croeso cynhesach i fewnfudwyr Protestannaidd oedd yn dianc Ewrop Gatholig er mwyn ymuno ag Eglwys newydd Harri – Eglwys Loegr.

Mae allfudo o Brydain hefyd wedi bod yn digwydd ers canrifoedd. Teithiodd nifer o Biwritaniaid – oedd yn dilyn y ffydd Brotestannaidd – i America. Wedi cyrraedd, llofruddion nhw'r Americanwyr brodorol a difa eu cymunedau.

Yn ddiweddarach, daeth Siarl II i gasau y Crynwyr a'r Bedyddwyr. Cyn pen dim, fe wnaethon nhw ffoi i America hefyd.

Ceisiodd y Crynwyr gydfyw yn heddychlon gyda'r brodorion gan osod esiampl i fewnfudwyr eraill. Er gwaethaf defnyddio caethweision ar y dechrau, y Crynwyr wnaeth arwain yr ymgyrch i ddiddymu caethwasiaeth.

Erbyn yr 17eg ganrif a'r 18fed ganrif, roedd poblogaethau ar draws y byd yn newid yn sgil cyfnod o ymerodraethau yn ehangu a threfedigaethu.

Yn ystod newyn datws Iwerddon yn 1845, teithiodd cannoedd ar filoedd o ffoaduriaid Gwyddelig i America, Lloegr ac Awstralia, ac mae eu hetifeddiaeth ddiwylliannol i'w gweld yno hyd heddiw.

Yn fwy diweddar, adeg teyrnasiad Fictoria, pan roedd yr Ymerodraeth Brydeinig ar ei hanterth, mudodd llawer o Brydeinwyr i'r trefedigaethau i weithio neu sefydlu tiriogaethau newydd fel gwnaeth y Cymry ym Mhatagonia.

Yn y cyfamser, roedd pethau'n newid ym Mhrydain hefyd. Achosodd y chwyldro diwydiannol fudo mewnol ar raddfa anferth wrth i bobl o gefn gwlad symud i weithio yn y dinasoedd.

Daeth ton o weithwyr o Loegr i weithio ym mhyllau glo Cymru gan ddod â'r iaith Saesneg gyda nhw. Ac wrth i'r Cymry symud i weithio yn ninasoedd Lloegr, dirywiodd defnydd o'r iaith Gymraeg.


© Hawlfraint BBC

Ymlaen i ddechrau'r 20fed ganrif, pan roedd pobl yn dal i fod yn elyniaethus tuag at fewnfudwyr.

Iddewon dwyrain Ewrop a Rwsia oedd yn ei chael hi waetha'. Roedd cam-drin hiliol a thrais yn gyffredin tan ddiwedd yr 1930au. Yn wreiddiol, roedd llywodraeth Prydain yn gyndyn i groesawu ffoaduriaid Iddewig o'r Almaen Natsïaidd. Ond ar ôl dechrau'r Ail Ryfel Byd, a daeth pobl i ddeall am erledigaeth Hitler, newidiodd agweddau ac roedd y llywodraeth yn fwy parod ei chroeso.

Yn y degawdau yn dilyn y rhyfel, dechreuodd pobl werthfawrogi cyfraniad diwylliant, deallusol ac economaidd mewnfudwyr.

Daeth pobl â phethau gwahanol gyda nhw ... cerddoriaeth ska a reggae o India'r Gorllewin, Bhangra o Punjab a bwydydd o India a China.

Yn yr 21fed ganrif, mae tensiynau hiliol a gwrthwynebiad gwleidyddol i fewnfudo'n dal yn broblem fawr i gymdeithas.

Yn 2016, pleidleisiodd 52 y cant o Brydeinwyr o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mewnfudo oedd prif bryder llawer ohonyn nhw.

Ond nid rhywbeth newydd yw mewnfudo. Mae poblogaethau wedi bod yn cymysgu ac yn cyfoethogi ei gilydd ers canrifoedd gan greu'r gymdeithas amlddiwylliannol ry ni'n byw ynddi nawr.


© Hawlfraint BBC